Annwyl Gwsmer

**Penderfyniad yn dilyn Ymgynghoriad Cyhoeddus Lleol**

**Swyddfa Bost Crymlyn**
**Siop y Pentref, Uned 5, Adeilad yr Institiwt, Sgwâr Crymlyn,**
**Crymlyn, Casnewydd, NP11 4QD**

Rwy'n ysgrifennu i gadarnhau ein bod, yn dilyn cyfnod o ymgynghoriad cyhoeddus lleol ac adolygiad, wedi penderfynu bwrw ymlaen â'r penderfyniad i symud y Swyddfa Bost uchod i adeilad newydd, sef hen Neuadd y Pensiynwyr yn Y Stryd Fawr, Crymlyn, Casnewydd, NP11 4PT, lle caiff ei rhedeg gan bartner manwerth.

Hoffwn ddiolch i bawb a neilltuodd amser i roi sylwadau a gwybodaeth inni. Bu'r holl adborth a gawsom yn help i ni ddeall barn cwsmeriaid a'u cynrychiolwyr yn well a chafodd y sylwadau eu hystyried, ynghyd â'r holl ffactorau perthnasol eraill, wrth i ni wneud ein penderfyniad. Cafodd crynodeb o'r adborth ei amgáu, ynghyd â thaflen wybodaeth sy'n rhoi manylion pellach am y gangen newydd.

Ar ôl rhoi ystyriaeth ofalus i'r ymatebion a gafwyd, rydym yn ffyddiog o hyd y bydd cynllun a lleoliad y gangen newydd yn dal i ateb gofynion y cwsmeriaid ac yn darparu gwasanaeth rhagorol, yn ogystal â diogelu hyfywedd hirdymor gwasanaethau Swyddfa'r Post yn y gymuned leol.

Bydd y gangen bresennol yn cau ddydd Mercher 28 Gorffennaf 2021 am 21:00, a bydd y gangen newydd yn agor yn yr adeilad newydd, sef hen Neuadd y Pensiynwyr Crymlyn yn y Stryd Fawr, Crymlyn, am 09:00 ddydd Sadwrn 7 Awst 2021. Os bydd rhaid newid y dyddiad agor am resymau annisgwyl, bydd posteri'n cael eu gosod yn y gangen a mannau lleol eraill er mwyn rhoi gwybod i gwsmeriaid.

Mae'n ddrwg gennym am y diffyg gwasanaeth am gyfnod byr wrth i ni gwblhau ein cynlluniau i agor y gangen newydd. Yn ystod y cyfnod hwn pan fydd y gangen ar gau dros dro, gall cwsmeriaid ddefnyddio unrhyw gangen Swyddfa'r Post arall sy'n gyfleus. Mae'r canghennau a ganlyn yn y cyffiniau:

- Swyddfa Bost Y Bontnewydd-ar-Wy, 20 Y Stryd Fawr,Y Bontnewydd-ar-Wy, Casnewydd, NP11 4EZ
- Swyddfa Bost Croespenmaen, Lôn Maes-yr-haf, Croespenmaen, Crymlyn, Casnewydd, NP11 3BJ

Pan fydd Swyddfa Bost Crymlyn yn cael ei hadleoli, rhoddir y gorau dros dros i'r gwasanaethau Allgymorth yn Trinant, Cwm, Six Bells a Llanhiledd o ddydd Mercher 28 Gorffennaf 2021. Bydd y Postfeistr o Swyddfa Bost Crymlyn yn dal i redeg y gwasanaethau Allgymorth, a bydd rhain yn ailddechrau ddydd Llun 9 Awst 2021.

Hoffem ymddiheuro am yr anhwylustod a allai ddigwydd oherwydd y cau dros dro. Gobeithiwn y bydd ein cwsmeriaid yn dal i ddefnyddio gwasanaethau Swyddfa'r Post. Pan fydd y gwasanaethau Allgymorth ar gau dros dro, gall cwsmeriaid ddal i ddefnyddio unrhyw gangen Swyddfa'r Post sy'n gyfleus ar gyfer cynhyrchion a gwasanaethau arferol Swyddfa'r Post. Isod, fe welwch fanylion canghennau Swyddfa'r Post cyfagos a allai fod yn ddefnyddiol.

- Swyddfa Bost Brynithel, Teras Brynithel, Abertyleri, NP13 2HE
- Swyddfa Bost Glyn Ebwy, 63 Stryd Bethcar, Glyn Ebwy, NP23 6XA
- Swyddfa Bost Abertyleri, 1 Pont y Ffowndri, Abertyleri, NP13 1BX
- Swyddfa Bost Swffryd, 3 – 4 Rhodfa Walters, Crymlyn, Casnewydd, NP11 5HT

**Post Office Limited is registered in England and Wales. Registered No.2154540.**
**Registered Office: Finsbury Dials, 20 Finsbury Street, London EC2Y 9AQ.**
Post Office and the Post Office logo are registered trademarks of Post Office Limited
**Cofrestrwyd Swyddfa'r Post Cyf yng Nghymru a Lloegr. Rhif Cofrestredig 2154540.**
**Swyddfa Gofrestredig yn Finsbury Dials, 20 Finsbury Street, Llundain EC2Y 9AQ.**
Mae Swyddfa'r Post a logo Swyddfa'r Post yn nodau masnach cofrestredig I Swyddfa'r Post Cyfyngedig

Oherwydd Covid-19, gall y bydd oriau agor y canghennau'n amrywio. Mae'r wybodaeth ddiweddaraf sydd ar gael am ein canghennau ar ein gwefan www.postoffice.co.uk/branch-finder

Mae'r wybodaeth hon ar gael hefyd yng Nghanolfan Ymgynghori Swyddfa'r Post yn: postofficeviews.co.uk

Mae'r hysbysiad hwn yn unol â'n Hegwyddorion Ymgysylltu â'r Gymuned.

Mae detholiad sy'n ymwneud ag ymgynghori ar ddiwedd y llythyr hwn.

Yr eiddoch yn gywir

*Sarah Cottrell*


**Sarah Cottrell**
**Rheolwraig Darpariaeth y Rhwydwaith**
**Swyddfa'r Post Cyfyngedig**

comments@postoffice.co.uk
postofficeviews.co.uk.
FREEPOST Your Comments


**I gael yr wybodaeth hon mewn fformat gwahanol, er enghraifft, print bras, sain neu braille, ffoniwch 03452 66 01 15 neu 03457 22 33 55 (ffôn testun).**

## Atodiad A

## Ymateb i'r Ymgynghoriad Cyhoeddus Lleol

**Dechreuodd yr ymgynghoriad 2 Mawrth 2021**
**Daeth yr ymgynghoriad i ben 13 Ebrill 2021**

**Ymatebion o'r ymgynghoriad**

- **Un ymateb gan gynrychiolydd lleol.**

Rydym yn sylweddoli fod Swyddfa'r Post yn chwarae rhan bwysig ym mywydau pobl, yn enwedig y bobl hŷn a phobl anabl, ac rydym am wneud ein gwasanaethau mor hygyrch â phosibl. Mae mynediad i'r adeilad newydd trwy gyfrwng grisiau neu ramp a chanllawiau o'r llwybr troed. Mae yna oledd wrth y fynedfa, sydd â drws llydan. Y tu mewn, bydd dolen glyw a lle i gadair olwyn.

Rydym wrth ein bodd y bydd y gangen hon yn ateb gofynion cwsmeriaid a hefyd yn rhoi hyfywedd hirdymor a chynaliadwyedd yn y dyfodol.

Y tu mewn, bydd y gangen newydd yn bodloni gofynion Swyddfa'r Post, gan wneud yn siŵr fod digon o le i'r Swyddfa Bost leol ei natur weithredu ochr yn ochr â'r caffi a'r siop. Byddwn yn cydweithio'n agos â'r Postfeistr wrth ddylunio tu mewn yr adeilad. Bydd peth celfi, ffitiadau a nwyddau'n cael eu symud neu'n cael eu cymryd oddi yno i wneud yn siŵr fod y llwybr i mewn i'r adeilad yn ddirwystr. Bydd y fynedfa, llwybrau a'r lle bydd cwsmeriaid yn aros eu tro yn cael eu cadw heb rwystrau a bydd digon o le i gwsmeriaid symud o gwmpas y siop a chyrchu gwasanaethau'r Swyddfa Bost heb anhawster.

Bydd y Swyddfa Bost leol ei natur yn gweithredu o ddau fan gwasanaeth Swyddfa'r Post wrth gownter y siop. Bydd hyn yn darparu amrediad eang o gynhyrchion a gwasanaethau Swyddfa'r Post ochr yn ochr â thrafodion manwerth. Bydd trigolion lleol yn dal i fanteisio o'r un oriau agor hir. Mae manylion llawn am y gangen newydd ar ddiwedd y llythyr hwn, ynghyd â rhestr o'r cynhyrchion a gwasanaethau a fydd ar gael.

**Atodiad B**

**Taflen wybodaeth Swyddfa Bost Crymlyn**

**Hen Neuadd y Pensiynwyr Crymlyn**
**Y Stryd Fawr**
**Crymlyn**
**Casnewydd**
**NP11 4PT**

Oriau agor newydd

| | |
|---|---|
| Llun | 07:00 – 21:00 |
| Maw | 07:00 – 21:00 |
| Mer | 07:00 – 21:00 |
| Iau | 07:00 – 21:00 |
| Gwen | 07:00 – 21:00 |
| Sad | 07:00 – 21:00 |
| Sul | 09:00 – 21:00 |

**Yn ystod y pandemig Coronafeirws mae'n bosib y bydd rhaid newid oriau agor y gangen.**

**Mae'r wybodaeth ddiweddaraf am ganghennau ar gael ar ein gwefan yn [www.postoffice.co.uk/branch-finder](www.postoffice.co.uk/branch-finder)**

**Cynhyrchion a Gwasanaethau**
Bydd yr un dewis eang o gynhyrchion a gwasanaethau ar gael o hyd.

**Mannau gwasanaeth**
Bydd dau fan gwasanaeth ar gownter y siop a byddant ar gael pan fydd y siop ar agor.
Cafodd nifer y mannau gwasanaeth eu seilio ar faint o fusnes sydd ar hyn o bryd a faint a ragwelir yn y dyfodol.

**Mynediad**
Bydd drws llydan wrth y fynedfa i'r adeilad newydd.
Mae mynediad trwy gyfrwng grisiau neu ramp a chanllawiau o'r llwybr troed.
Y tu mewn, bydd dolen glyw a lle i gadair olwyn.

**Cyrraedd yno**
Bydd y gangen newydd gyferbyn a'r gangen bresennol.
Mae modd parcio wrth ymyl y ffordd gerllaw ac mae maes parcio am ddim ar gael o fewn 100 metr i'r adeilad newydd.

**Y Siop**
Siop hwylustod a Chaffi

**Dyddiad y symud**
Dydd Sadwrn 7 Awst 2021 am 09:00

| Gwasanaethau ar gael yn Swyddfa Bost Crymlyn | |
|---|---|
| I gael gwybod a yw cynnyrch ar gael, ffoniwch 03457 22 33 44.<br>Mae manylion am werth uchaf trafodion ar gael gan y sawl sy'n rhedeg y Swyddfa Bost. | |
| | Y gangen newydd |
| Post | |
| Post Dosbarth Cyntaf ac Ail Ddosbarth | ✓ |
| Stampiau, llyfrau stampiau (Dosbarth 1af: 6 a 12 yn unig, 2il Ddosbarth: 12 yn unig) | ✓ |
| Stampiau arbennig (dyroddiad y Nadolig yn unig) a labeli post | ✓ |
| Signed For | ✓ |
| Special Delivery | ✓ |
| Dychweliadau siopa o gartref | ✓ |
| Parseli mewndirol bach, cymedrol a mawr | ✓ |
| Parseli Express a chontract | ✓ |
| Post Lluoedd Prydain (BFPO) | ✓ |
| Llythyrau a chardiau post Rhyngwladol (yn cynnwys Tracked a Signed) | ✓ |
| Parseli rhyngwladol hyd at 2kg a phapurau printiedig hyd at 5kg | ✓ |
| Parseli Parcelforce Worldwide Rhyngwladol | ✓ |
| Eitemau i'r Deillion (mewndirol a rhyngwladol) | ✓ |
| Gwasanaeth ailgyfeirio'r Post Brenhinol | ✓ |
| Local Collect | ✓ |
| Drop & Go | ✓ |
| **Codi arian, adneuon a thaliadau** | |
| Cyfrif Cerdyn Swyddfa'r Post | ✓ |
| Bancio personol a busnes: Y cyfan o ran codi arian, adneuon, ymholiadau balans ac adneuo sieciau mewn amlenni (cerdyn, cod bar neu â llaw). | ✓ |
| Archebion Post | ✓ |
| Moneygram | ✓ |
| Rhoi newid | ✓ |
| Talu biliau (cerdyn, cod bar neu â llaw) | ✓ |
| Adlenwi allweddi | ✓ |
| Trwyddedau | |
| Trwyddedau pysgota â gwialen | ✓ |
| Teithio | |
| Arian Teithio wedi'i archebu o flaen llaw | ✓ |
| Arian Teithio ar gais | Ewros/Doleri |
| Atgyfeirio Yswiriant Teithio | ✓ |
| | |
| Adlenwadau ffonau symudol ac E-dalebau | ✓ |
| Terfynell Loteri Cenedlaethol | ✓ |
| Talu â siec | ✓ |

| | | |
|---|---|---|
| Mae cynhyrchion eraill ar gael yn Swyddfa Bost **Y Bontnewydd-ar-Wy**, | Oriau agor: | |
| 20 Y Stryd Fawr, Y Bontnewydd-ar-Wy, | Llun – Gwen | 11:00 – 15:00 |
| Casnewydd, NP11 4EZ | Sad | 10:00 – 13:00 |
| | Oriau agor: | |
| ac yn Swyddfa Bost **Croespenmaen**, | Llun – Sad | 06:30 – 21:30 |
| Lôn Maes-yr-haf, Croespenmaen, Crymlyn, Casnewydd, NP11 3BJ | Sul | 07:30 – 21:30 |

**Egwyddorion Ymgysylltu â'r Gymuned ynghylch newidiadau i rwydwaith Swyddfa'r Post (detholiad)**

Mae fersiwn llawn o'r ddogfen hon ar gael ar ein Canolfan Ymgynghori – postofficeviews.co.uk.

Rydym wedi ymrwymo i ymgysylltu â'n cwsmeriaid a'u cynrychiolwyr ac i'w cefnogi wrth i ni wneud newidiadau i rwydwaith Swyddfa'r Post. Dilynir yr egwyddorion a ganlyn wrth gyfathrebu am newidiadau i'ch cangen Swyddfa'r Post leol.

Bydd yn Ymgynghori pan fyddwn yn chwilio am ymateb i argymhellion cyn gwneud penderfyniad ynghylch:

- Cau cangen Swyddfa'r Post[1] yn barhaol
- Adleoli cangen Swyddfa'r Post yn barhaol (gan gynnwys masnachfreintio cangen â Rheolaeth-Uniongyrchol i safle newydd)

Byddwn yn cynnal ymgynghoriad cyhoeddus lleol dros gyfnod o chwe wythnos[2] er mwyn rhoi gwybod i gynrychiolwyr etholedig lleol[3], Cyrff Eirioli Defnyddwyr ac elusennau dewisol[4] am yr argymhelliad. Bydd yr wybodaeth hon ar gael hefyd ar-lein ac ar gyfer cangen â Rheolaeth Uniongyrchol cyflwynir datganiad newyddion i'r cyfryngau lleol. Byddwn yn gofyn i gynrychiolwyr etholedig lleol rannu gwybodaeth trwy gyfryngau cymunedol eraill (megis hysbysfyrddau, elusennau lleol, cylchgronau, meddygfeydd, etc.).

Bydd yr ymgynghoriad yn golygu gofyn cwestiynau penodol pan fyddwn yn dymuno cael adborth ynghylch mynediad i wasanaethau Swyddfa'r Post a bydd yn cadarnhau dyddiad y newid os taw'r penderfyniad yw i fwrw ymlaen. Byddwn yn rhoi gwybodaeth glir am unrhyw newidiadau i wasanaethau yn ogystal â mynediad i'r gangen newydd a'r tu mewn iddi.

Rydym yn croesawu pob adborth ac mae'r ffactorau isod yn cael eu hystyried wrth i ni wneud ein penderfyniad; disgwylir y gwneir y penderfyniad hwnnw o fewn pedair wythnos i ddiwedd yr ymgynghoriad:

- Mynediad cwsmeriaid i, i mewn i a'r tu mewn i'r gangen /canghennau newydd neu amgen, gydag ystyriaeth benodol i ddefnyddwyr sydd yn agored i niwed
- Unrhyw faterion cymunedol lleol a allai gael eu heffeithio gan yr argymhelliad neu ddylanwadu arno

Ar ddiwedd y broses ymgynghorol byddwn yn ysgrifennu at gynrychiolwyr etholedig lleol, Cyrff Eirioli Defnyddwyr ac ymatebwyr i'r ymgynghoriad (os yw hynny'n ymarferol) er mwyn cadarnhau ein penderfyniad a rhoi crynodeb o'r materion allweddol a godwyd, ynghyd ag ymateb clir i bob un. Bydd yr wybodaeth ar gael ar-lein ac yn y gangen (pan fo hynny'n bosibl).

**Cafodd yr Egwyddorion hyn eu cytuno â Chyngor ar Bopeth, Cyngor ar Bopeth yr Alban a Chyngor y Defnyddwyr yng Ngogledd Iwerddon, sef cyrff gwarchod statudol annibynnol y defnyddwyr.**

Beth i'w wneud os ydych yn teimlo na ddilynwyd yr Egwyddorion hyn:
Cysylltwch â ni, os gwelwch yn dda, fel y gallwn ymchwilio i'ch cwyn. Yn ein hateb byddwn yn esbonio a ydym yn credu ein bod wedi dilyn ein Hegwyddorion Ymgysylltu â'r Gymuned a chewch y manylion cyswllt ar gyfer y corff gwarchod defnyddwyr priodol (Cyngor ar Bopeth, Cyngor ar Bopeth yr Alban neu Gyngor y Defnyddwyr yng Ngogledd Iwerddon) os nad ydych yn fodlon â'n hymateb. Bydd y corff gwarchod yn gwneud asesiad annibynnol i ganfod a ydym wedi dilyn y broses Egwyddorion Ymgysylltu â'r Gymuned (yn hytrach na'r penderfyniad ei hun) ac yn argymell unrhyw gamau i'w cymryd ynghylch y cwyn.

**postofficeviews.co.uk.** **Comments@postoffice.co.uk** **FREEPOST Your Comments**
**Ffôn: 03452 66 01 15** **Ffôn Testun: 03457 22 33 55**

[1] Gall fod nifer fach o achosion pan, oherwydd amgylchiadau y tu hwnt i'n rheolaeth, nad oes gennym unrhyw ddewis ond i gau cangen mewn lleoliad penodol yn barhaol. Mewn achosion o'r fath byddwn yn ceisio adborth ynghylch darparu gwasanaeth Swyddfa'r Post amgen yn yr ardal.
[2] Os yw'r ymgynghoriad yn cynnwys mwy na phedair wythnos ym mis Gorffennaf yn Yr Alban a Gogledd Iwerddon neu fwy na phedair wythnos ym mis Awst yng Nghymru a Lloegr, byddwn yn estyn y cyfnod am un wythnos galendr. Ni fyddwn yn dechrau unrhyw ymgynghoriadau cyhoeddus lleol yn ystod y bythefnos sydd yn cynnwys gwyliau banc y Nadolig a'r Flwyddyn Newydd.
[3] Mae cynrychiolwyr etholedig lleol yn cynnwys ond heb fod yn gyfyngedig i'r Aelod Seneddol, Senedd yr Alban, Llywodraeth Cymru, neu Gynulliad Gogledd Iwerddon, Prif Weithredwr yr Awdurdod Lleol, Cynghorwyr Ward, Y Cyngor Cymuned neu'r Cyngor Plwyf.
[4] Yr elusennau dethol yw Cyngor ar Bopeth, Age UK, Disability Action Gogledd Iwerddon a Rhwydwaith Cymunedau Gwledig Gogledd Iwerddon. Anogir y sawl y cyfeirir atynt yn 3 a 4 uchod i rannu pob gwybodaeth â grwpiau a sefydliadau lleol a allai fod â diddordeb gweithredol mewn newidiadau i'w Swyddfa Bost leol.